Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

Annwyl Gynghorydd,

**CYNGOR SIR - DYDD MERCHER, 16EG MAI, 2018**

Gweler yn amgaeedig, Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd, a ddosbarthwyd yn y cyfarfod.

| Rhif ar yr Agenda | Eitem |
|---|---|
| 6. | <u>DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR</u> **(Tudalennau 3 - 32)** |

Yn gywir,

*Mark James*

Prif Weithredwr

Amg.

# Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd

## 2017-2018

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Cyflwyniad .................................... 3

Y Fargen Ddinesig .......................... 6

Prosiect TIC .................................. 9

Datblygu Economaidd ................... 10

Addysg .......................................... 14

Yr Amgylchedd .............................. 18

Adnoddau ...................................... 23

Cymunedau .................................... 26

Hyrwyddo'r Gymraeg ..................... 30

Lluoedd Arfog ................................ 30


100% wedi'i ailgylchu

# Cyflwyniad



*Porth Tywyn*

Tudalen 5

Unwaith eto, mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-2018 i chi. Hwn yw fy nhrydydd adroddiad o'r fath ers dod yn Arweinydd y Cyngor, ond fy adroddiad cyntaf ers etholiadau 2017 pryd y bu newid eithaf sylweddol yn y cydbwysedd grym o fewn y Cyngor. Yr adeg hon y llynedd cefais gyfle i groesawu 29 o wynebau newydd i feinciau Siambr y Cyngor. Mae hynny'n fwy na thraean cyfanswm y Cynghorwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi derbyn sesiynau hyfforddi a seminarau ymsefydlu rif y gwlith, a bellach mae'n rhaid eu bod ymysg y Cynghorwyr mwyaf gwybodus i eistedd yn y Siambr hon erioed. Ond rwyf yn gobeithio y bydd gennych oll ddealltwriaeth well o dipyn o sut mae llywodraeth leol yn gweithio, ac y byddwch mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau hollbwysig dros y pedair blynedd sy'n weddill o'r Cyngor hwn.

Efallai y dylwn ei gwneud yn glir fy mod yn gobeithio y bydd oes y Cyngor hwn yn para mwy o lawer na phedair blynedd sydd ar ôl o'r tymor presennol. Ond fel y gwyddom i gyd, bob blwyddyn, ar glywed cwcw gynta'r gwanwyn, daw Gweinidog newydd o Lywodraeth Cymru ger ein bron â chynigion arloesol i ad-drefnu llywodraeth leol. Yn yr un modd, gellir rhagweld hefyd y rhoddir y cynigion hynny i'r neilltu yn y pen draw, i'w hystyried yn y dyfodol, wedi iddynt gael eu gwrthod gan bron pawb ym myd llywodraeth leol.

Bydd Cynghorwyr hen a newydd wedi dod yn gyfarwydd â thema gyson cyni cyllidol. Mae llywodraeth ganolog wedi mynd ati'n frwd ers blynyddoedd i weithredu'r polisi economaidd cwbl anhygred o gyni o ran cyllid cyhoeddus. Bellach mae llawer o arbenigwyr ariannol yn cydnabod nad oedd unrhyw reswm dros gyni cyllidol ac nad oedd unrhyw ddiben economaidd iddo. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ein bod wedi gorfod ymdopi â llai ers blynyddoedd erbyn hyn. Rydym wedi ceisio gwneud arbedion ariannol ym mhob agwedd ar waith y Cyngor, ac rwyf yn llawn edmygedd o staff y Cyngor am feddwl am lu o syniadau blaengar i arbed arian. Ond mae ein gwasanaethau wedi'u naddu i'r asgwrn a bellach mae bron yn amhosibl dal ati i ddiogelu ein gwasanaethau rheng flaen.

Bob blwyddyn mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu a phenderfynu faint o arian sydd ar gael ar gyfer llywodraeth leol. Yr ateb yn ddieithriad yw "dim digon". Ni allwn ond gobeithio y bydd y newid yn yr arweinyddiaeth yn dilyn ymddeoliad Carwyn Jones fel Prif Weinidog Cymru yn arwain at newid mewn pwyslais, ac y bydd llywodraeth leol yn cael ei gwarchod rhag toriadau pellach.

Serch hynny, er iddo fod yn gyfnod anodd, mae cymaint wedi digwydd yn Sir Gaerfyrddin dros y 12 mis diwethaf sy'n gwneud i mi deimlo'n gadarnhaol am y dyfodol.

Yr adeg hon y llynedd roedd y Prif Weinidog newydd ymweld â De-orllewin Cymru i lofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3bn. Diolch i gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn rhoi hwb ariannol o £1.8bn i economi'r rhanbarth ac yn creu hyd at 10,000 o swyddi o safon dros y 15 mlynedd nesaf. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae llawer iawn o gynnydd wedi ei wneud y tu ôl i'r llenni. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant gwerth £200m ar gyfer Llynnoedd Delta yn Llanelli, a datblygu clwstwr digidol creadigol 'Yr Egin' ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mae'r bwrdd gweithredol yn benderfynol o sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd a fydd yn cael eu creu drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

> *"O'm safbwynt i, y foment fwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd lansio cynllun pum mlynedd newydd y Glymblaid: "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin"."*

Tudalen 6

Yn y ddogfen hon mae'r Bwrdd Gweithredol yn amlinellu bron i 100 o brosiectau blaenoriaeth, cynlluniau neu wasanaethau rydym yn bwriadu eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun, a gafodd ei lansio yn Ionawr, yn nodi'r prif feysydd buddsoddi a gwella y byddwn yn eu gyrru yn ystod gweddill tymor y Cyngor hwn, yn ogystal â gweithredu gwasanaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd.

Maent yn cynnwys – o ran yr amgylchedd - cynlluniau i wneud Sir Gaerfyrddin yn brif sir beicio Cymru, gwella'r seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, lleihau ôl troed carbon y Cyngor, cefnogi mentrau ffermio cynaliadwy a gwella cyfraddau ailgylchu'r sir.

O ran addysg, mae cynlluniau i ddarparu buddsoddiad pellach o £129 miliwn yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg, gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau ysgolion i gefnogi gweithgareddau cymunedol, ymgysylltu â rhagor o bobl ifanc a symud ysgolion ar hyd continwwm y Gymraeg.

Ym maes gofal cymdeithasol a thai, mae'r bwrdd gweithredol yn bwriadu datblygu strategaeth ddigartrefedd, gwireddu ei ymrwymiad i ddatblygu 1,000 o dai fforddiadwy gan roi pwyslais ar sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto ac adeiladu tai newydd, cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, darparu rhagor o gymorth i ofalwyr a lleihau unigrwydd ymhlith pobl agored i niwed a phobl hŷn.

Mae'r buddsoddiad a gynlluniwyd yn narpariaeth hamdden y sir yn cynnwys datblygu cyfleusterau newydd a phresennol, gan gynnwys canolfannau hamdden, Harbwr Porth Tywyn a Pharc Gwledig Pen-bre.

Mae adfywio Sir Gaerfyrddin yn nodwedd allweddol. Mae strategaethau trawsnewid yn canolbwyntio ar wella canol trefi Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin, llain arfordirol y sir, ardaloedd twf allweddol fel Cross Hands ac yn bwysig, adfywiad yr ardaloedd gwledig.

Er bod llywodraeth leol yn wynebu cyfnod ansicr oherwydd toriadau llym mewn gwariant cyhoeddus, mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cannoedd o wasanaethau o ddydd i ddydd i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr â'r sir. Fel bwrdd gweithredol, rydym wedi nodi nifer o brosiectau a rhaglenni allweddol y byddwn yn ymdrechu i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf.

Drwy gyflwyno'r prosiectau a'r rhaglenni hyn credwn y gallwn gyfrannu at sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Bwriad ein prif gynllun uchelgeisiol yw mynd ati'n gyson i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sir a thrwyddo byddwn yn sicrhau bod ein trigolion, ein cymunedau, ein sefydliadau a'n busnesau yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ddatblygu a ffynnu er budd ein sir.

Bydd adroddiadau ac argymhellion manwl ynghylch prosiectau a rhaglenni penodol yn cael eu cyflwyno drwy brosesau democrataidd y Cyngor dros y pedair mlynedd nesaf.

Rwyf yn ffodus fel Arweinydd o gael grŵp hynod alluog a thalentog o bobl ar y Bwrdd Gweithredol. Fel y dywedais o'r blaen, mae ganddynt oll eu cryfderau unigol ond maent ar eu gorau pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd.

Ond wrth gwrs, yr hyn sy'n peri i Sir Gaerfyrddin fod mor llwyddiannus yw ansawdd ein staff, sy'n cael eu harwain mor effeithiol gan ein Prif Weithredwr, Mark James CBE.

Mae fy adroddiad blynyddol yn crafu'r wyneb yn unig a prin y mae'n gwneud cyfiawnder â gwaith caled ac ymdrech y miloedd o bobl a gyflogir gan yr Awdurdod. Rydw i wedi gwneud ymdrech i gwrdd â chynifer o aelodau staff ag y bo modd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac wedi fy syfrdanu gan eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i sicrhau mai Sir Gâr yw'r sir orau yng Nghymru.

Dymunaf ddiolch yn ddiffuant iawn i chi i gyd.

**Cyng. Emlyn Dole**

Arweinydd
Cyngor Sir Gâr



# Y Fargen Ddinesig



*Cam 1, Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli*

Tudalen 8

Mae ychydig dros flwyddyn bellach ers i'r Prif Weinidog ymweld â De-orllewin Cymru i lofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n werth £1.3bn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y Fargen Ddinesig. Yn ei sgil, sicrhawyd 11 o brosiectau sylweddol ledled Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot.

> *Diolch i gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn rhoi hwb ariannol o £1.8bn i economi'r rhanbarth ac yn creu hyd at 10,000 o swyddi o safon dros y 15 mlynedd nesaf.*

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae llawer iawn o gynnydd wedi ei wneud y tu ôl i'r llenni. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys datblygu a chyflwyno wyth o 11 achos busnes ar gyfer prosiectau'r Fargen Ddinesig i Lywodraethau'r DU a Chymru er mwyn eu cymeradwyo. Disgwylir y bydd y rhai cyntaf yn cael eu cymeradwyo'r haf hwn. Ymhlith y prosiectau y mae Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant gwerth £200m ar gyfer Llynnoedd Delta yn Llanelli, a'r 'Egin' sef datblygiad clwstwr digidol creadigol ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

Mae cais cynllunio amlinellol wedi cael ei gyflwyno bellach ar gyfer y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, a disgwylir y bydd y gwaith ar y safle, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, yn dechrau tua diwedd 2018.

Rhagwelir y bydd y datblygiad yn rhoi hwb o £467 miliwn i'r economi leol ac yn creu 2,000 o swyddi sy'n talu'n dda. Ymhlith ei gyfleusterau fydd canolfan hamdden hollol fodern a mannau ar gyfer gwasanaethau iechyd a llesiant, busnes ac ymchwil, addysg, hyfforddiant a llety byw â chymorth. Bydd y safle hefyd yn cael ei dirweddu i roi cyfleoedd ar gyfer llwybrau cerdded â golygfeydd, beicio a hamdden.

Bydd gwasanaethau hybu iechyd, atal a chymunedol yng nghanol y gwasanaethau a ddarperir ar y safle. Rydym am helpu pobl i gael y cyfle i wneud dewisiadau iachach a phan fo angen gofal, rydym am geisio darparu hynny'n fwy cyfleus yn y gymuned, yn nes at ble mae pobl yn byw. Rydym yn cydnabod bod nifer helaeth o ofalwyr di-dâl yn y gymuned yr ac yr ydym am roi mesur ar waith i'w helpu a chefnogi ynghyd â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr, colegau lleol a phrifysgolion i ddarparu cyrsiau hyfforddi i fyfyrwyr 16+ oed trwy hyfforddiant iechyd ôl-raddedig i feddygon a therapyddion. Byddwn yn targedu darpariaeth prentisiaethau a dysgu yn y gweithle ac yn ceisio cyfrannu'n sylweddol at hyfforddiant y genhedlaeth nesaf o ymarferwyr iechyd a gofal, ac yn darparu amgylchedd cefnogol i alluogi pobl yn lleol i gyrraedd eu potensial mwyaf posibl ar draws ystod eang o broffesiynau.

Yn ogystal mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym ar gam cyntaf 'Yr Egin', a fydd yn agor yr haf hwn. Gan ddarparu amgylchedd blaengar ar gyfer diwydiannau creadigol, S4C yw prif denant y datblygiad, a fydd yn cynnwys cyfleusterau deori a chyflymu busnesau, ynghyd â llecynnau i'w rhannu at ddibenion rhyngweithio a rhwydweithio, er mwyn rhoi rhagor o gefnogaeth i entrepreneuriaeth lleol a mentergarwch creadigol.

Fel pob cynllun yn y Fargen Ddinesig, bydd y prosiectau hyn yn cael eu hategu gan brosiectau 'edau euraidd' seilwaith digidol o'r radd flaenaf a menter sgiliau a thalentau, a fydd yn rhoi llwybr i'n pobl ifanc a fydd yn arwain at gael y swyddi o werth uchel a grëir.

Mae'r prosiect sgiliau a thalentau, dan arweiniad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, eisoes yn ymchwilio i'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran darpariaeth sgiliau, a'r modd

gorau o ymdrin â hyn yn awr ac yn y blynyddoedd i ddod.

Gan fod ystadegau'n dangos nad yw tua 40% o'r myfyrwyr o'r Ddinas-ranbarth yn dychwelyd i weithio yn Sir Gaerfyrddin ar ôl graddio o'r brifysgol, bydd y Fargen Ddinesig yn helpu i fynd i'r afael â'r duedd honno drwy fapio'r hyn a gyflawnir ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd, nodi bylchau yn y ddarpariaeth, a chyflwyno cyrsiau pwrpasol ar gyfer prosiectau'r Fargen Ddinesig.

Bydd technoleg hefyd yn cael ei rhoi ar waith i alluogi dysgu o bell gwell nag erioed o'r blaen, fel bod gan fyfyrwyr sy'n byw yn rhannau gwledig y Ddinas-ranbarth yn enwedig, yr un mynediad i gyfleoedd â phawb arall.

Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran trefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig hefyd. Bydd Cytundeb Cydweithio sy'n amlinellu egwyddorion gwaith y Fargen Ddinesig yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo gan y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol yn y misoedd nesaf, a'r disgwyl yw y bydd cadeirydd bwrdd strategaeth economaidd y Fargen Ddinesig, a fydd yn dod o'r sector preifat, yn cael ei benodi'n fuan iawn.

Mae swyddog ymgysylltu busnes a swyddog cyfathrebu a marchnata, a fydd yn gweithio yn Swyddfa Ranbarthol y Fargen Ddinesig, wedi cael eu penodi i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Fargen Ddinesig ymysg busnesau, y cyfryngau a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig, sy'n cynnwys Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y pedwar awdurdod lleol, y prifysgolion a'r byrddau iechyd, wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ar ffurf gysgodol ers i'r Fargen Ddinesig gael ei llofnodi, er mwyn sicrhau bod popeth yn barod i fynd wedi i drefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Mae'r cynnydd hwn yn tystio i'r gwaith diflino sydd wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf er budd pobl De-orllewin Cymru, felly mae ein dyled yn fawr i bawb sydd a wnelont â'r Fargen Ddinesig, nid yn unig yma yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ond hefyd sefydliadau partner y Fargen Ddinesig ledled y rhanbarth a'r tu hwnt.

Bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth sylweddol yn ystod y misoedd i ddod pan fydd trefniadau llywodraethu'r Fargen Ddinesig a nifer o brosiectau'r Fargen Ddinesig yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol.



# Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC)

Nod ein rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) yw meddwl yn wahanol, ymddwyn yn wahanol, a, thrwy hynny, gweithredu'n wahanol. Mae'r rhaglen a ddechreuodd yn 2012 yn ystyried ffactorau megis y potensial i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol, gwella gwasanaethau, cyfleoedd i weithio ar y cyd gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill, a phrosiectau trawsnewid sydd â'r potensial i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd.

> *Hyd yn hyn mae wedi helpu i nodi a chyflawni gwerth rhyw £12m o arbedion o ran arian parod ac arbed costau.*

Rydym yn gwybod fod llawer iawn o welliannau'n digwydd ar draws yr Awdurdod, ochr yn ochr â rhaglen TIC, a'r llynedd roeddem am gydnabod a gwobrwyo hynny felly lansiwyd gennym Wobrau TIC, a gynhaliwyd fis Gorffennaf diwethaf. Cyflwynwyd pump o brosiectau ysbrydoledig ar restr fer, a'r enillydd cyffredinol oedd ein tîm Dewisiadau Tai am y ffordd y bu iddynt wella eu systemau ar gyfer rhoi ystod eang o gyngor i'n pobl y mae angen tai arnynt.

Hefyd mae TIC wedi cefnogi menter gorfforaethol allweddol ar gyfer Trawsnewid Digidol. Mae hyn yn cwmpasu ein prosiect Newid Sianeli er mwyn ehangu'r ffyrdd y gall ein trigolion ryngweithio â'n gwasanaethau drwy greu cyfrif a rheoli gwasanaethau ar-lein. Rydym hefyd wedi lansio menter o bwys o gwmpas Gweithio Ystwyth, a fydd yn gwneud gwell defnydd o'n swyddfeydd ac yn defnyddio technoleg fel bod mwy o hyblygrwydd gan ein staff wrth weithio a darparu gwasanaethau.

I helpu ein hysgolion i wneud arbedion er mwyn diogelu cyrhaeddiad ac addysg disgyblion, bu i ni greu swydd TIC benodol ar gyfer ysgolion. Mae rhywun wedi ei benodi i'r swydd ac mae rhaglen waith yn cael ei gweithredu sy'n nodi'r arbedion posibl y gall ysgolion eu gwneud ac y maent yn eu gwneud.

Bu TIC yn ymgynghori â'n staff i gyd a'n haelodau etholedig i ganfod "Beth sy'n gwastraffu eich amser?" Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi nodi rhyw 78 o feysydd gwelliant ac rydym wrthi'n gweithio arnynt ar hyn o bryd.

Effaith a chanlyniad rhai o'r meysydd hyn yw:

- **Teithio Staff –** gostyngiad o 12% / arbediad o dros £200k
- **Cyfarfodydd –** 8,000 o sesiynau fideo-gynadledda wedi eu cynnal (ers mis Gorffennaf 17)
- **Negeseuon Gwib –** anfonwyd 14,000 (ers mis Gorffennaf 17)
- **Anfonebau –** gostyngiad o 10%
- **Cyfrifon Arian Mân –** 20 yn llai yn y flwyddyn ddiwethaf.
- **Postio ac argraffu –** arbediad o £700k ers 2014
- **Peiriannau ffacs –** dros 130 i'w gwaredu

Yn y dyfodol bydd ein rhaglen TIC yn cyfateb yn agosach i'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn gweithio hyd yn oed yn agosach â gwasanaethau sy'n wynebu cyfyngiadau ariannol cynyddol, i ganfod ffyrdd newydd o weithio a diogelu gwasanaethau rheng flaen.

# Datblygu Economaidd




*'Stryd Cyfleoedd', Llanelli*

Tudalen 12

## Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio

Mae gennym ymrwymiad parhaus i adfywio canol tref Llanelli. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau cychwynnol rhanbarthol i ddenu a sicrhau arian o dan y rhaglen targedu buddsoddiad adfywio, sy'n ceisio adeiladu ar fomentwm cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid / Stryd Cyfleoedd. Byddwn yn canolbwyntio o hyd ar ganol y dref gan ymestyn ychydig hefyd i ardaloedd Heol yr Orsaf. Rydym hefyd wedi cynnwys canol tref Rhydaman yn ein cynigion. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar ddechrau defnyddio safleoedd gwag unwaith yn rhagor, ar drechu tlodi ac ar greu cyfleoedd ar gyfer busnes a bywyd trefol.

Eleni rydym wedi cael arian camau 1 (£750,000) a 2 (£418,000) o fenthyciad Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd da'n cael ei wneud o ran y ddau brosiect oedd yn gysylltiedig â'r cyllid hwn a byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ganol y dref. Rydym hefyd wedi sicrhau £895,000 ar ffurf trydydd cam pellach, a bydd hwnnw ar gael ar gyfer canol trefi Llanelli a Rhydaman. Rydym wedi ymrwymo o hyd i dasglu Canol Tref Llanelli ac mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud yng nghanol y dref a'r ardaloedd cyfagos drwy ymyrraeth gadarnhaol rhanddeiliaid y grŵp sy'n cynnwys, y Cyngor Tref, y Cyngor Gwledig a sefydliadau eraill.

Ar yr arfordir, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ddymchwel safle Pontrilas ger Doc y Gogledd. Rydym wedi gweithio gydag ymgynghorwyr i lunio cais cynllunio amlinellol ar gyfer tai gyda golwg ar farchnata'r safle'n hwyrach yn 2018. Gan symud ymhellach i'r gorllewin, ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda datblygwr a ffefrir sydd â chytundeb dethol ar gyfer datblygu safle'r harbwr ym Mhorth Tywyn.

Mae'r prosiect yn cynnwys creu atyniad glan môr newydd i ymwelwyr a fydd yn cynnwys: Amgueddfa Traeth y Gwibwyr newydd, rhyngweithiol a modern; hostel eco ar lan y môr ac iddo 42 gwely; gerddi'r twyni; llecyn chwaraeon tywod; maes chwarae antur; ardal ddigwyddiadau; rhodfa arddangos; maes parcio mwy o faint; a llwybr styllod newydd i gerddwyr.

> *"Ar ôl sicrhau £4.5m o gyllid gan Ewrop a Llywodraeth Cymru, mae cynlluniau terfynol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gyflawni prosiect £7m yn ddiweddarach eleni a fydd yn darparu cyfleusterau i ymwelwyr gydol y flwyddyn. Bydd y prosiect yn anelu at fanteisio i'r eithaf ar asedau naturiol a threftadaeth Pentywyn i hyrwyddo adfywiad economaidd y lle fel cyrchfan gwibdeithiau diwrnod a thros nos."*

Rydym yn gweithio gyda nifer o bartïon sydd â diddordeb mewn perthynas â datblygu'r naw llain sydd wedi'u cwblhau o Gam 1 Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, gyda'r prosiectau posibl yn cael eu cyflwyno i'w hystyried ar gyfer Cronfa Datblygu Eiddo y Cyngor Sir. Rydym hefyd wedi ceisio dyluniadau adeilad a chynllun ar gyfer Llain 3, sef y llain fwyaf ar y safle er mwyn darparu prosiect parod os bydd arian domestig neu arian Ewropeaidd ar gael yn y dyfodol agos. Rydym wedi cychwyn gwaith arolwg wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cam 2 i alluogi ceisiadau cynllunio manwl yn 2018/19, yn ogystal â llywio ymarfer tendro yn y dyfodol ar gyfer seilwaith. Ac yn ddiweddar, rydym wedi derbyn gwybodaeth ein bod wedi sicrhau gwerth £2.5 miliwn o arian ar gyfer Cam 2. Bydd hyn yn cwblhau'r Safle Strategol yn ei gyfanrwydd ac yn darparu 19 hectar o dir datblygu i gyd, gyda'r potensial o greu hyd at 1000 o swyddi.

Mae datblygiadau Gorllewin Cross Hands wedi darparu 143 o dai newydd tra bo 2 safle arall sy'n 3.68 hectar o faint rhyngddynt yn cael eu marchnata gan y Cyngor ar hyn o bryd fel datblygiad preswyl. Mae trafodaethau a arweinir gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn para ynghylch

Tudalen 13

datblygu canolfan feddygol a defnyddiau cysylltiedig. Yn y cyfamser bu datblygiadau cyflym o ran elfennau manwerthu'r safle, gyda chwmnïau adnabyddus fel Costa, B&M, Dominos, Jenkins, the Food Warehouse, ac, yn ddiweddarach, Pets at Home, yn agor llefydd ar y safle gan greu cyfuniad o swyddi rhan-amser ac amser llawn ar gyfer yr economi leol.

## Prosiectau Prif Gynllun Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin

Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2017/18 mewn perthynas â chyflawni nifer o brosiectau a nodwyd ym Mhrif Gynllun y Fforwm Adfywio. Mae cyllid yr UE wedi cael ei sicrhau i gyflawni Gwlyptiroedd Caerfyrddin a Chynllun y Porth, ac i ailddatblygu Sgwâr Jackson gan gynnwys darparu Ciosgau yn Heol y Capel a Sgrin Fawr Newydd. Mewn perthynas â phrosiectau a arweinir gan drydydd partïon y mae'r Cyngor yn eu cefnogi: mae'r gwaith adeiladu'n mynd yn dda ar brosiect Yr Egin ac mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau yn haf 2018; mae'r cynigion i ailddatblygu'r Neuadd Sirol wedi cael caniatâd cynllunio er ein bod yn dal i aros am gymeradwyaeth gan Cadw; ac mae'r cynigion i adeiladu swyddfeydd Ethos Tywi ar Gei Caerfyrddin yn mynd rhagddynt yn dda.

## Hwb Rhydaman

Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod wedi prynu 41 Stryd y Cei, Rhydaman o ran datblygu cynigion i sefydlu gwasanaeth Hwb Rhydaman. Yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn mynd yn fyw ddiwedd 2018.

Bydd y prosiect cyntaf o dan Gronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman yn cynnwys ailddatblygu hen fanc Lloyds yn Rhydaman, a'r disgwyl yw y cychwynnir ar y prosiect hwn ddechrau'r haf 2018. Llunnir ceisiadau manwl pellach i'r Gronfa ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith o ddymchwel ac adnewyddu'r unedau cyflogaeth presennol yng Nglanaman ar y gweill a phan fyddant wedi eu cwblhau ddechrau'r gwanwyn 2018 mae disgwyl y byddant yn darparu gwell arwynebedd llawr diwydiannol

Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2017 / 18 mewn perthynas â darparu nifer o brosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Tasglu Rhydaman. Mae Cam 1 y gwaith o adeiladu wal gynnal wedi cael ei gwblhau yn haf 2017 mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig i ledu'r ffordd yn Stryd Marged, y rhagwelir y bydd yn digwydd yn haf 2018. Mae gwaith gwella llecynnau cyhoeddus wedi cael ei wneud ar Groesfan Carregaman a'r groesfan rheilffordd ar waelod Stryd y Cei. Mae gwaith trafnidiaeth yn parhau o ran gwella cyffordd Tir y Dail.

## Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin

O dan Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, sy'n werth £2 filiwn, ar hyn o bryd rydym yn helpu nifer o Fusnesau Sir Gaerfyrddin i dyfu trwy ddarparu cymorth ariannol i'w galluogi i ddatblygu safleoedd newydd ac ehangu safleoedd presennol gyda'r nod o greu swyddi. Hyd yn hyn mae saith prosiect wedi cael eu cwblhau, sydd wedi arwain at greu 53 o swyddi amser llawn, darparu 30,000 troedfedd sgwâr o ofod cyflogaeth, a sicrhau £1.2m o fuddsoddiad sector preifat. Mae 19 o brosiectau eraill ar wahanol gamau yn eu datblygiad ac mae gwaith adeiladu ar y gweill ar 9 o'r prosiectau hynny. Yn 2019/20 mae'r Cyngor wedi ymrwymo £1m arall i'r cynllun a gwahoddir ceisiadau am y cyllid ychwanegol o fis Mai 2018.

## Wi-Fi Cyhoeddus Trefi Marchnad

Ar y cyd â Chynghorau Tref a chyda chymorth ariannol gan raglen Leader yr UE, bydd y Cyngor yn gweithredu cynllun peilot 2 flynedd i gyflwyno Wi-Fi am ddim yn sawl un o Drefi Marchnad yr Awdurdod. Daw pecyn cymorth dwy flynedd gyda'r prosiect Wi-Fi am ddim ar gyfer busnesau lleol a rhanddeiliaid allweddol, i alluogi'r cyrff hynny i fwyhau manteision y cynllun.

## Prosiectau'r Gronfa Datblygu Eiddo ledled y sir

Mae sawl prosiect wedi cael cyllid dan y Gronfa Datblygu Eiddo, sy'n weithredol ledled y sir. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y prosiectau yn hen adeilad y Jolly Tar ar y Cei a Theras Elliston, lle bydd 12,000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa o ansawdd uchel ar gael. Mae dau brosiect arall yng Nghaerfyrddin yn bwrw ymlaen â'u ceisiadau manwl. Mae dau brosiect yn Rhydaman wedi cael cyllid – adeilad yr Hen Lys yn

Stryd Marged a Safle Arfaethedig Coaltown Coffee yn Heol y Ffowndri. Mae prosiect arall yn ardal Rhydaman yn cael ei ddatblygu drwodd i'r cam ymgeisio manwl. Mae un prosiect gwledig wrthi'n llunio cais manwl i'w ystyried. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo £1.5m pellach i'r cynllun datblygu eiddo ar gyfer 2019/20 a gwahoddir ceisiadau gan Ddatblygwyr Eiddo Masnachol am gyllid ychwanegol o fis Mai 2018.

## Materion Gwledig

Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig trawsbleidiol i ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin. Ei nod yw nodi gweithredoedd y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill, fynd i'r afael â'r materion hynny i sicrhau a chefnogi adfywio gwledig yn y dyfodol. Mae'r Grŵp o dan arweinyddiaeth y Cyng. Cefin Campbell, Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Faterion Gwledig. Bydd yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig gan gynnwys datblygu economaidd, band eang, tai, cludiant, amaethyddiaeth, darparu gwasanaethau, addysg a bywyd cymunedol i enwi ond ychydig. Nod y Grŵp yw paratoi adroddiad ac argymhellion erbyn Mawrth 2019.




*Canol Tref Rhydaman*

# Addysg



*Ysgol Pen Rhos*

Tudalen 16

## Canlyniadau arholiadau ac asesiadau

Yn dilyn newidiadau polisi sylweddol a newidiadau allweddol i fesurau perfformio Cyfnod Allweddol 4 gan Lywodraeth Cymru, nid yw'n briodol cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Fodd bynnag, mae canlyniadau TGAU Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchiad o berfformiad ledled Cymru, gyda 57.2% o'n dysgwyr yn cyrraedd Dangosydd Cynhwysol allweddol Lefel 2 (o leiaf pump TGAU gradd A * i C yn cynnwys iaith a mathemateg). Mae ein canlyniad yn golygu ein bod yn gyffyrddus uwch na chyfartaledd Cymru.

Roedd canlyniadau profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol mewn cyfnodau allweddol addysg eraill wedi dirywio rhyw fymryn ond yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 3 gwelwyd parhad yn y duedd galonogol o berfformiad ar i fyny. Mae ein canlyniadau ar gyfer Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3 (dysgwyr yn cyrraedd Lefel 5 ar gyfer Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y pedair blynedd diwethaf. Mae ein perfformiad ar drothwy Lefel 3 (dysgwyr yn ennill dwy neu fwy o gymwysterau Safon Uwch neu gyfwerth) yn dal yn gryf gyda 97.8% o'n dysgwyr yn llwyddo i gyrraedd y nod hwn. Mae'r canlyniad yn golygu ein bod yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru sef 97.1%. Mae ein perfformiad wedi rhagori ar y ffigwr cenedlaethol am bum mlynedd yn olynol.

## Arolygiadau Ysgol gan Estyn

Yn ystod y flwyddyn, bu Estyn yn arolygu 18 o Ysgolion Sir Gaerfyrddin (14 ysgol gynradd, tair ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig). O ganlyniad, dyfarnwyd bod gan chwe ysgol arferion sy'n arwain y sector; bod saith yn ysgolion da; cafodd pedair ysgol eu gosod yng nghategori Monitro Estyn a chafodd un ei gosod yng nghategori Gwelliant Sylweddol Estyn.

O ganlyniad i'r cylch arolygu hwn, mae nifer o'n hysgolion wedi cynhyrchu 'Astudiaethau Achos o Arferion Effeithiol' er mwyn i Estyn hwyluso'r defnydd ehangach o'u harferion ledled Cymru. Ymhlith y meysydd penodol o weithgarwch y mae gwaith partneriaeth rhyngwladol, cwricwlwm i ymgysylltu â'r holl ddysgwyr, ymagweddau ysgol gyfan at gefnogi dysgwyr dan anfantais, gwyddoniaeth, technoleg, rhaglenni mathemateg a pheirianneg, arweinyddiaeth wasgaredig, dialog broffesiynol effeithiol, gwella sgiliau llythrennedd, datblygu sgiliau drwy brofiadau go iawn, cynllunio a darpariaeth ar gyfer TGCh, sgiliau meddwl a'r Dimensiwn Cymreig. Llongyfarchiadau gwresog iddynt ar gael y gydnabyddiaeth genedlaethol hon.

Ymhlith ein meysydd cytunedig ar gyfer gwelliant parhaus y mae gwella ymhellach 'llesiant i bawb' a gweithgareddau i gefnogi hunanwerthuso effeithiol a chynllunio ar gyfer gwelliannau ysgol gyfan.

## Cyfoethogi'r Cwricwlwm

Rydym yn parhau i ddarparu ystod o brofiadau cyfoethogi'r Cwricwlwm sydd yn cynnwys:

- Cymryd rhan mewn cystadlaethau llythrennedd, gydag Ysgol Stebonheath wedi'i choroni'n Bencampwyr Bookslam Cenedlaethol 2017.
- Daeth yr awdur Tom Anderson i Sir Gaerfyrddin i weithio gyda rhai o'n hysgrifenwyr mwy abl a thalentog.
- Cawsom ddeuddeg enillydd ym Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig a bu i Ysgol Nantgaredig ennill Tarian yr Amgueddfa Hanes Genedlaethol ar gyfer ei phrosiect ar hanes tref Caerfyrddin.
- Roedd gan Sir Gaerfyrddin gynrychiolaeth dda yn Nigwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2017, ac enillodd Ysgol Bro Banw y Wobr Diogelwch Ar-lein ac roedd yr ysgol hefyd yn enillwyr ar y cyd ar gyfer y Wobr Prosiect Digidol. Enillodd Ysgol Coedcae Wobr Gymunedol Hwb am 2017 ar gyfer Adnoddau i'r cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.
- Mae mwyfwy o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn ymrwymo i helpu i wneud y byd yn lle tecach drwy gefnogi Masnach Deg ac mae 18 o ysgolion bellach yn dal gwobr Cyflawni'n Deg.

## Y Rhaglen Moderneiddio Addysg:

Parhawyd â gwaith y Rhaglen Moderneiddio Addysg a welodd filoedd o'n dysgwyr yn elwa yn sgil cwblhau prosiectau o sylwedd, gwerth dros £20 miliwn, yn Ysgol Bro Dinefwr, Maes y Gwendraeth, Carreg Hirfaen, Bryngwyn, Coedcae, Sant Ioan Llwyd, Trimsaran a Phen Rhos.

Bydd y rhaglen buddsoddi mewn ysgolion yn parhau dros y 12 mis nesaf pan gwblheir prosiectau yn Ysgol Parc y Tywyn, Pontyberem a Llangadog a chychwynnir ar adeiladu Ysgol Dewi Sant a Rhys Pritchard, gan barhau hefyd i ddatblygu prosiectau'n barod ar gyfer buddsoddiad yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym hefyd wedi sefydlu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg gyntaf Sir Gaerfyrddin sef Ysgol Bro Myrddin ac ysgol gynradd yn lle ein hysgolion Babanod ac Iau gydag Ysgol Gynradd Gymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn Llangennech.

## Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid

Mae ffocws ar sicrhau bod staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant arbenigol er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae hyn wedi cynnwys rhaglenni rhianta, dulliau adferol, Hyfforddiant Sbectrwm Awtistig pwrpasol, a hyfforddiant atal hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau.

Ym mis Rhagfyr 2017, dechreuodd y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfnod pellach o brofi a gwerthuso'r broses Rheoli Achosion Gwell. Mae'r dull sy'n seiliedig ar y 'Model Adfer Trawma' yn cael ei ddefnyddio wrth oruchwylio troseddwyr ifanc. Bu Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn annerch y Confensiwn Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghaerlŷr mewn perthynas â'n gwaith.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae ffocws ar effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar fywydau plant a phobl ifanc.

## Gwasanaeth Cerdd

Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn wasanaeth mawr ei barch sy'n cael ei werthfawrogi yn y sir ac yn genedlaethol, a heb os mae wedi codi proffil Sir Gaerfyrddin ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys Côr Merched Sir Gâr, dan arweiniad y cerddor dawnus Islwyn Evans, yn perfformio yn y Music for Youth Proms yn Neuadd Albert, yn ennill cystadleuaeth nodedig Côr Cymru, yn dod yn ail yng Nghystadleuaeth Côr y Flwyddyn gyntaf Eurovision yn Riga, Latfia ac yn swyno Aelodau'r Cynulliad yn eu Gwasanaeth Carolau Nadolig yn y Senedd.

> *"Perfformiodd Cerddorfa'r Sir yn Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Music for Youth yn y Symphony Hall, Birmingham ac ymweld ag Efrog Newydd i berfformio yn Ysgol y Cenhedloedd Unedig. Perfformiodd yr Ensemble Pres mewn darllediad awyr agored gan BBC Radio Wales."*

## Gwasanaethau Plant

Mae ein Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn arloesol ac i edrych am ffyrdd newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar gefnogi ein plant a'n teuluoedd e.e. dulliau 'Pod' a Signs of Safety mewn Gwaith Cymdeithasol a'r tîm 'Ar Ffiniau Gofal' newydd.

Mae Dechrau'n Deg wedi cael ei ymestyn i Rydaman bellach, ac mae buddsoddiad cyfalaf wedi galluogi creu swyddfeydd Dechrau'n Deg newydd a Chanolfan Gyswllt gyfunedig i deuluoedd. Yn ogystal, mae gennym gyfleuster gofal plant newydd yn ysgol newydd Pen Rhos yn Llanelli. Mae 1,832 o blant (0-3 oed) sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn gallu elwa o Dechrau'n Deg mewn 17 o leoliadau ar draws Sir Gaerfyrddin.

Erbyn hyn mae proses gaffael Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei chwblhau a bydd yn cynnwys 13 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y rheiny sydd eisoes wedi eu cael.

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dal i berfformio'n dda er gwaethaf yr heriau sydd ynghlwm wrth faint y rhanbarth a'i amrywiaeth.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal, a byddwn yn dal i'w monitro'n agos drwy ein Panel Llety. Canolbwyntir ar ddefnyddio ein strategaethau atal er mwyn cadw plant gartref gyda'u teuluoedd pryd bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny.

Rydym wedi cynnal adolygiad o'n gwasanaeth anabledd plant. Bydd pob atgyfeiriad newydd ar gyfer anabledd plant a phontio yn mynd drwy'r Tîm Atgyfeirio Canolog fel un pwynt cyswllt i sicrhau cysondeb a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a hynny pan fo'i angen arnynt.

## Trawsnewid Digidol

Dechreuwyd gweithredu rhaglen o newid sylweddol ar gyfer y Cyngor, sef cyflwyno taliadau ar-lein i ysgolion. Bydd y system newydd yn rhoi'r cyfle i rieni dalu ar-lein am brydau ysgol a phethau eraill fel tripiau ysgol, gan waredu'r angen i fynd ag arian parod i'r ysgol. Bydd hyn yn fanteisiol i'r rhieni, yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion.



*Côr Merched Sir Gâr yn Latfia*

# Yr Amgylchedd




*Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, Nantycaws*

## Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu

Rydym yn dal i gyrraedd ein targedau ar gyfer rheoli gwastraff ac ailgylchu er gwaethaf marchnad heriol. Mae'r gwaharddiad ar fewnforio papur a phlastig gan Tsieina wedi effeithio'n sylweddol ar brisiau nwyddau, ond nid ar berfformiad ailgylchu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r farchnad gwastraff gweddilliol (lle caiff gwastraff nad oes modd ei ailgylchu ei gludo i Ewrop at ddibenion adennill gwres, sy'n gallu cael ei gyfrif yn erbyn targedau ailgylchu) wedi bod yn anodd ac mae dirywiad wedi bod mewn perfformiad ailgylchu ar gyfer 17/18 o gymharu â 16/17.

*"Dengys y ffigurau perfformiad ailgylchu cyffredinol presennol ar gyfer trydydd chwarter 17/18 berfformiad o 64.34%, sy'n golygu y cyrhaeddir y targed ailgylchu statudol ar gyfer 19/20 o hyd."*

Yn yr un modd, rydym yn parhau i gyrraedd ein targedau ar gyfer dargyfeirio i safleoedd tirlenwi.

Ymunodd dros 2400 o gwsmeriaid â'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd, sy'n un ar wahân y codir tâl amdano, lle mae tanysgrifwyr yn talu ffi blynyddol am y gwasanaeth.

## Rheoli Llecynnau Cyhoeddus a'r Amgylchedd Lleol

Mae ein timau Gorfodi Materion Amgylcheddol, Glanhau, Cynnal a Chadw Tiroedd, Rheoli Llifogydd/yr Arfordir a'r Gwasanaethau Bwrdeisiol yn parhau i sicrhau bod cynnal, diogelu a chadw yr amwynderau lleol a'r amgylchedd adeiledig dal i fod yn flaenoriaeth a bod ymagwedd gydlynol. Rydym wedi cynnal 12 o amnestau gwastraff lleol mewn gwahanol leoliadau yn y sir, sydd wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau i ardaloedd lle nad yw'n gyfleus i gyrraedd ein cyfleusterau gwaredu gwastraff sefydlog. Casglwyd dros 72 o dunelli o ddeunydd ailgylchadwy o'r cyfanswm o 108 o dunelli a gasglwyd drwy'r amnestau.

Mae gwaith prosiect ar y cyd yn dal i gael ei gyflawni drwy fenter "Cymoni eich Cymuned" lle gweithir gyda'r Is-adran Dai, Cadwch Gymru'n Daclus, a grwpiau cymunedol eraill, gwirfoddolwyr a phartneriaid i roi'r gallu i'r gymuned leol ac unigolion gyfrannu a helpu i ddatrys problemau amgylcheddol yn eu hardal, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau casglu sbwriel ac ymgyrchoedd baw ci.

## Buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth

Rydym wedi cychwyn ar Gam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, a ddyluniwyd yn fewnol, i gefnogi adfywio economaidd. Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd cysylltu ein cynlluniau yn agos gyda'r Fargen Ddinesig a mentrau adfywio eraill.

Rydym wrthi hefyd yn gwella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman i wella llif y traffig a lleihau tagfeydd. Rydym wedi lobïo Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus i gychwyn y gwaith ar gynllun ffordd osgoi Llandeilo a'n prosiect uchelgeisiol ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi, a fydd yn cysylltu Llandeilo â Chaerfyrddin.

Rydym wedi cyflawni Prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn llwyddiannus ym Mhontyberem a Chaerfyrddin, ac wedi buddsoddi £445,500 mewn gwaith trin llwybrau rheoli traffig er mwyn gwella seilwaith yn y Bryn, Llangennech, Pen-y-groes a Thŷ-croes.

## Diogelwch Ffyrdd a Theithio Llesol

Roedd y Cyngor dal i fod yn gysylltiedig â threfniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynnal mentrau addysg ynghylch diogelwch ffyrdd ac er mwyn clustnodi safleoedd ar gyfer gwaith gorfodi ac ymyriadau peirianegol. Buddsoddodd y Cyngor mewn diogelwch ffyrdd drwy gyllido rhaglenni addysg diogelwch ffyrdd a chynlluniau peirianneg yn

cynnwys cynlluniau trin llwybrau gwledig a therfynau cyflymder o 20mya y tu allan i ysgolion. Hyd yn hyn, mae gwelliannau o'r fath wedi cael eu cyflwyno y tu allan i 55 safle ysgol arall ar draws y sir. Yn ogystal, rydym wedi cyflawni ein rhaglen hyfforddiant Diogelwch Ffyrdd ac ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, yn cynnwys hyfforddi gyrwyr hŷn, gyrwyr ifanc, beicwyr modur a phobl ifanc.

Rydym wedi ailgynllunio'r rhwydwaith cludiant o'r cartref i'r ysgol i hwyluso teithio i'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol neu i'r ysgol agosaf, yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Roeddem wedi cyflwyno'n llwyddiannus Fap Rhwydwaith Integredig manwl i Lywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Llesol; cafodd hwn ei asesu ac ers hynny mae wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.

## Cynnal ein hasedau gweithredol

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cerbydau newydd yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol.

Rydym wedi datblygu dogfen bolisi ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, fel sy'n ofynnol gan Gôd Ymarfer newydd Seilwaith Priffyrdd sy'n cael ei Reoli'n Dda. Rydym wedi datblygu Hierarchaeth Rhwydwaith Priffyrdd i ategu'r cynllun Rheoli Asedau a llywio rheoli'r rhwydwaith yn y dyfodol. Mae datblygu'r feddalwedd gyfrifiadurol o fewn y system rheoli asedau wedi caniatáu i ymchwiliadau SCRIM (sy'n nodi amodau sgidio wyneb y ffordd) gael eu gwneud yn fewnol, gan roi bod i arbedion o flwyddyn i flwyddyn.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru fel bod gwaith peirianneg sylweddol yn gallu parhau ar y prosiect GlawLif yn Ardal Llanelli, gan leihau tagfeydd traffig a'r effaith ar drigolion cymaint â phosibl wrth wneud hynny.

## Cynnal Trafnidiaeth Gymunedol ac Ysgol

Rydym wedi dal ati i weithio gyda'r gymuned a chynghorau sir Ceredigion a Phenfro i helpu i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth integredig Bwcabus a gwasanaethau bysiau strategol allweddol.

## Cynllunio Datblygu

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cyflwyno'r weledigaeth ofodol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'n cael effaith uniongyrchol ar fywyd pob un sy'n byw yn y sir ac mae iddo hefyd oblygiadau mawr i raglenni buddsoddi, strategaethau a chynlluniau eraill, cymunedau a pherchenogion tir. Mae ein Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn nodi ein hymagwedd yn y tymor hir at gynllunio defnydd tir hyd at 2021 ac yn effeithio ar gyfeiriad cyfleoedd twf y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw. Mae ymgysylltiad cymunedol yn parhau i fod yn elfen allweddol wrth lunio a gweithredu'r cynllun hwn.

Cyflwynwyd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol, a oedd yn cynnwys y flwyddyn o 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017, i Lywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2017. Roedd yr adroddiad yn asesu i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni, a yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol, ac a oes gan newidiadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol unrhyw effaith ar y Cynllun. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod sawl newid yn yr amgylchiadau hyn yn golygu bod angen Adolygiad o'r CDLl. Mae'r adolygiad yn awr ar y gweill gyda'r nod o sicrhau bod y CDLl newydd yn ei le erbyn diwedd 2021.

## Manteisio i'r eithaf ar Gyfraniadau Cynllunio

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfraniadau o gytundebau cynllunio Adran 106 wedi cael eu defnyddio i sicrhau amrywiaeth o fuddion cymunedol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag addysg, mannau agored, hamdden a diogelwch ar y priffyrdd. Mae taliadau gwirioneddol a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn ystod 2017/18 yn dod i gyfanswm o fwy na £960,000, gyda gwariant yn ystod yr un flwyddyn yn fwy na £670,000. Roedd y gwariant a'r taliadau a gafwyd £100,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Rhai o'r prosiectau a gyflawnwyd oedd:

- Pentref Aled Afal, Ysgol Gymraeg Brynsierfel – datblygu dychymyg plant, sgiliau llythrennedd a chyfathrebu, yn ogystal â sgiliau cymdeithasol mewn llecyn awyr agored yn Ysgol Gymraeg Brynsierfel, gan greu pentref dychmygol ar gyfer

cymeriadau llyfr storïau Cymraeg o'r llyfrau gan Delyth Owen.

- **Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig -** tair pont anhramwyadwy yng Ngwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig wedi'u hatgyweirio a'u troi'n llwybrau troed. Defnyddir y warchodfa gan lawer o bobl yn y gymuned leol fel llecyn gwyrdd naturiol, a hefyd gan wirfoddolwyr cymunedol sy'n gwneud gwaith cadwraeth yn y warchodfa.
- **Lle Chwarae Llwynhendy** – creu lle chwarae a darnau rhydd rhwng Ysgol Brynteg a Chanolfan Blant Integredig Llwynhendy. Bydd y lle chwarae a'r adnoddau ar gael i ddisgyblion yr ysgol yn ystod yr oriau addysgu, i'r Ganolfan Blant Integredig yn ystod eu clybiau chwarae gyda'r hwyr, ac i'r gymuned ehangach ar y penwythnos ac yn ystod y gwyliau ysgol. Mae gan y lle chwarae ystod o ddarnau rhydd megis rhwydi adeiladu cuddfannau, rhaffau, planciau, teiars, blociau mawr, adnoddau sgrap ac offer chwaraeon, a hwn yw'r unig le chwarae naturiol lleol â choed a llecynnau chwarae naturiol yn ward Llwynhendy

## Cydweithio

Mae'r Uned Gwastraff a Mwynau yn cael ei hystyried yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer cynllunio gwastraff a mwynau yn Ne Cymru. Mae'r Uned yn darparu gwasanaethau cynllunio gwastraff a mwynau i saith Awdurdod Lleol arall.

Mae Uned Rheoli Adeiladu y Cyngor yn cynnal rhwydwaith sefydledig o fwy na 70 o bartneriaid lleol gan gynnwys asiantau, ymgynghorwyr a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill i sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu.

Mae'r Is-adran Gynllunio yn parhau i weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd â chydweithwyr ar draws y Cyngor a sefydliadau eraill i gyflawni prosiectau cynaliadwy wrth gefnogi adfywio economaidd. Enghraifft o hyn yw'r gwaith tuag at ddarparu a rheoli cynefin addas i fritheg y gors (math o bili-pala) drwy Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr, a gafodd Wobr Canmoliaeth Uchel gan RTPI Cymru ym mis Tachwedd 2017. Derbyniodd y wobr hon gan am hwyluso ateb strwythuredig ar gyfer datblygiadau yn yr ardal twf economaidd, gan ddarparu'r mesurau lliniaru angenrheidiol a sicrhau bod pob datblygiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

## Treftadaeth Adeiledig

Mae Tîm Treftadaeth Adeiledig Sir Gaerfyrddin wedi bod yn rhan o'r gwaith adnewyddu arobryn yng Ngorsaf Pantyffynnon, lle cafodd cefnogaeth ac ymrwymiad y tîm i'r prosiect eu cydnabod gan y panel beirniadu gan arwain at ennill gwobr yr 'adeilad gorau a adnewyddwyd' yng Ngwobrau Cadwraeth Ymddiriedolaeth Treftadaeth Rheilffyrdd y DU. Rhoddwyd cyfle gwych hefyd i fyfyriwr gwaith coed treftadaeth (a hyfforddwyd gan Ganolfan Tywi, Tîm Treftadaeth Adeiledig) weithio ar adnewyddu'r orsaf sy'n adeilad rhestredig Gradd II.

## Cydweithio a Throsglwyddo Asedau Parc a Llefydd Chwarae

Mae bron pob parc a lle chwarae wedi ei drosglwyddo bellach i sefydliadau lleol, yn cynnwys cymdeithasau chwaraeon a chynghorau tref a chymuned, ac mae Grantiau Cynnal a Chadw a Grantiau Gwella wedi eu darparu. Bydd rheoli'r cyfleusterau hyn yn lleol yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw hyd at lefel sy'n adleisio gofynion lleol ac yn hwyluso cyfleoedd grant na fyddai'r Cyngor Sir yn gymwys ar eu cyfer. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei gydnabod fel arweinydd o ran hwyluso trosglwyddo asedau ac mae wedi cyfrannu at ganllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo arfer da yn y maes hwn.

Rydym hefyd wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu cofnodion eiddo ledled y cynghorau tref a chymuned a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod asedau cymunedol yn cael eu nodi'n effeithiol a'u hyrwyddo fel rhan o waith Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Parc Howard

Mae'r Cyngor Sir wedi parhau i fuddsoddi yn y parc a'r amgueddfa a bellach wedi ymrwymo i drefniant rheoli ar y cyd ffurfiol gyda Chyngor Tref Llanelli: Grŵp Cydweithredu Parc Howard. Bydd y Grŵp yn ariannu costau rhedeg cyfredol ar y cyd, yn archwilio'r potensial i gael cyllid grant er mwyn datblygu cyfleusterau ymhellach a'u cynnal, ac yn blaenoriaethu'r ffordd orau o wario'r £500,000 o arian cyfalaf a ddyrannwyd yn rhaglen gyfalaf y Cyngor Sir i wella rhagor ar y brif ased hon ar gyfer Llanelli a'r sir ehangach.

## Tîm Dylunio Eiddo

Mae Tîm Dylunio Eiddo y Cyngor yn darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau newydd i wella'r asedau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2017/18 roeddem wedi cwblhau pedair o ysgolion newydd: Ysgol Penrhos yn Seaside yn Llanelli; estyniadau mawr i Ysgol Sant Ioan Llwyd yn Llanelli; Ysgol newydd Trimsaran ac estyniadau mawr yn Ysgol Coedcae. Cafodd y fflatiau newydd a'r unedau manwerthu yn 10-12 Stryd Stepney, Llanelli eu cwblhau hefyd, ynghyd â cham cyntaf yr unedau diwydiannol newydd yng Nglanaman.

## Recriwtio Graddedigion a Phrentisiaid

Mae Adran yr Amgylchedd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r rhaglen Camau Nesaf, sy'n rhoi pedair wythnos o brofiad gwaith gyda chwmnïau adeiladu lleol a chyfleoedd fel prentisiaid i'r ymgeiswyr buddugol. Yn haf 2018 bydd y Cyngor hefyd yn cynnig lleoedd prentisiaeth am y tro cyntaf fel rhan o'r rhaglen hon.

Mae'r Cyngor unwaith eto wedi parhau i gefnogi Grwpiau Hyfforddiant Adeiladu Sir Gaerfyrddin a Rhanbarthol (CCTAL) a Cyfle, sy'n cyflogi ac yn hyfforddi prentisiaid adeiladu a rennir. Cafodd Cyfle ei gydnabod fel arweinydd ym maes hyfforddi prentisiaid drwy gael Gwobr y Frenhines am Fenter: Arloesi yn 2017.

Yn ystod 2017/18 roeddem wedi recriwtio 10 o raddedigion a 10 o brentisiaid i Adran yr Amgylchedd, a'r bwriad yw recriwtio rhagor yn ystod y flwyddyn i ddod

## Gweithio Ystwyth

Rydym wedi lansio ein hymagwedd gweithio ystwyth ar draws swyddfeydd y Cyngor i leihau ymhellach y costau 'swyddfa gefn' a gwella ein hamgylchedd swyddfa i staff. Mae gwaith ar y gweill mewn amryw o adeiladau i gyflwyno mannau gweithio ystwyth, gan gynnwys gwaith adnewyddu sylweddol ym Mharc Dewi Sant a 3 Heol Spilman.

## Ystadau Diwydiannol a Ffermydd

Mae gennym dros 400 o unedau diwydiannol a 28 o ffermydd sy'n cael eu gosod o hyd. Mae ein hunedau diwydiannol yn hyblyg o ran bod yn llecynnau cyflogaeth 'mewn yn hawdd, allan yn hawdd' ar gyfer busnesau lleol, ac maent yn helpu busnesau sy'n darparu oddeutu 2,000 o swyddi yn y sir. Hefyd erbyn hyn rydym yn cynnig cyfleoedd gosod newydd yng Nglanaman yn dilyn adnewyddu 13 o unedau newydd, gyda mwy i ddod yng ngham 2.

## Lleihau'r Ynni a Ddefnyddir

Mae'r cynnydd mewn costau gwasanaethau, yn ogystal â dirwyon cysylltiedig am allyriadau carbon yn golygu bod angen rhaglenni effeithlonrwydd ynni sydd hyd yn oed yn fwy heriol. Rydym wedi archwilio cyfleoedd arbed ynni uchelgeisiol yn ein hadeiladau annomestig, gan gynnwys ysgolion, a hynny drwy raglen Re:fit Cymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sy'n defnyddio contractau perfformiad ynni i sicrhau arbedion ynni. Mae hyn yn ategu ac yn cyflymu ein rhaglen effeithlonrwydd ynni gorfforaethol lwyddiannus, sy'n parhau i leihau'r ynni a ddefnyddir gennym o flwyddyn i flwyddyn yn holl adeiladau'r Cyngor.



Parc Newydd, Llyn Llech Owain

Tudalen 24

# Adnoddau



*Neuadd y Sir, Caerfyrddin*

Fel y crybwyllais yn fy nghyflwyniad, mae'r sefyllfa gyllido anodd y mae Llywodraeth Leol yn ei wynebu yn parhau, ac ers peth amser mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i wneud pethau'n wahanol a blaenoriaethu sut mae'n dymuno gwario ei adnoddau cynyddol brin. Rydym bob amser wedi gallu llunio cyllideb gytbwys, er bod adnoddau'n prinhau, gan gynnal safonau gwasanaeth ar yr un pryd i raddau helaeth.

Unwaith eto eleni rydym wedi derbyn setliad am flwyddyn yn unig ar lefel awdurdod unigol, ac er ei fod yn gynnydd cyffredinol o 0.2%, roedd yn fwy ffafriol a chefnogol i Lywodraeth Leol na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol. Unwaith yn rhagor mae hwn yn lleihad gwirioneddol mewn cyllid, a rhagwelir y bydd setliadau negyddol yn dychwelyd i Lywodraeth Leol yn y blynyddoedd i ddod. Rydym hefyd wedi wynebu gostyngiadau mewn rhai o'r grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ychwanegu at y pwysau ariannol ar wasanaethau.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd angen cyflawni gostyngiadau o £30m a bwrw bod y lleihad yng nghyllid Llywodraeth Leol yn parhau, fel y rhagwelir yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Roedd yn rhaid i ni - wrth ymateb i'r wasgfa barhaus a'r lleihad gwirioneddol mewn cyllid, gan sicrhau ar yr un pryd fod y cynnydd o ran y Dreth Gyngor cyn lleied ag y bo modd - ddal ati i chwilio am arbedion effeithlonrwydd o ran y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau, ac, yn anffodus, o ran lefel y gwasanaethau mewn rhai achosion.

Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn eang ac yn amrywiol eleni, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau i gael barn ystod helaeth o bobl am y gyllideb. Mae hyn wedi galluogi trafodaeth helaeth ynghylch y gyllideb, a hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad neu ymateb i'r arolygon. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, y setliad terfynol a gafwyd, a newidiadau i'r rhagdybiaethau dilysu, roeddem wedi gallu ailystyried rhai o'r cynigion ynghylch arbed arian a hefyd sicrhau ein bod yn diogelu'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig, ac mae hynny, ynghyd â sefydlu 'cronfa datblygu ysgolion' gwerth £500k, wedi golygu ein bod yn sicrhau bod ysgolion mewn sefyllfa gref i barhau i ddarparu gwasanaeth addysg o lefel uchel yn y dyfodol.

Drwy'r broses credaf ein bod wedi cyflwyno Strategaeth Gyllideb gynaliadwy a hyfyw sy'n:

- Ymateb i bryderon yr ymgynghoriad
- Sicrhau i'r graddau mwyaf posibl fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal
- Cydnabod bod pobl y sir yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni, a, thrwy hynny, leihau cymaint â phosibl ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor
- A chyhyd ag sy'n bosibl yn paratoi'r Awdurdod hwn ar gyfer unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyllid a allai ddigwydd yn y dyfodol.

## Cydweithio/Y Fargen Ddinesig

Rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i'r agenda gydweithio, gan geisio lliniaru'r gostyngiadau yn y gyllideb a magu gwytnwch lle bo hynny'n bosibl. Gan adeiladu ar y berthynas bresennol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae Sir Gaerfyrddin bellach yn cyflawni cyfrifoldebau Adran 151 i aelodau'r Awdurdod Tân.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr awdurdod cynnal ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gan ddarparu nid yn unig y swyddogaethau statudol ond arwain y drafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cadw ardrethi busnes a darparu cyngor ynghylch caffael hefyd. Yn fwy cyffredinol, mae tîm caffael Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio ar y cyd â Sir Benfro i greu ymagwedd caffael ar y cyd trosfwaol, gan wireddu manteision bod yn fwy o faint a pharchu anghenion unigol ar yr un pryd.

## Cronfa Bensiwn Dyfed

Fel rhan o ddatblygiad parhaus Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gweithgarwch sylweddol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn gweithredu trefniant Cronni Pensiynau effeithiol ar gyfer Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cwrdd deirgwaith yn ystod y flwyddyn ac wedi penodi'r gweithredwr trydydd parti, Link Fund Solutions, a fydd yn gweithredu'r Gronfa yn y dyfodol. Bydd y gronfa hon a'r gweithredwr yn amlwg yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Hefyd, mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cytuno ar y gronfa fuddsoddi gyntaf ar gyfer y Gronfa, a fydd yn Gronfa Ecwiti Byd-eang. Wrth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddatblygu, yn ogystal â chael mwy o adenillion yn sgil buddsoddi, rydym hefyd yn rhagweld gostyngiad yn ein treuliau rheoli buddsoddi ar gyfer pob un o wyth Cronfa Cymru.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal ar gyfer y Gronfa hon, lle mae'r trefniant yn ei gwneud yn ofynnol inni ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol ac i weithredu penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed ei hun yn parhau i weithredu mewn ffordd sefydlog ac ar hyn o bryd mae'n werth £2.6 biliwn ac ar lefel gyllido o ryw 97%.



Llansteffan

# Cymunedau



Y gyfarwyddiaeth Cymunedau yw un o adrannau mwyaf yr awdurdod sydd yn cyflogi bron i 1,600 o bobl ac sydd â'i gwariant cyfan yn agos i £144 miliwn. Mae'n creu bron £50 miliwn o incwm. Mae'r adran yn amrywiol, ac mae'n cynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Iechyd yr Amgylchedd, Tai, Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd a Hamdden.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae'r galw am ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn tyfu'n gyson ledled Cymru. Wrth i'r boblogaeth sydd dros 85 oed yn Sir Gaerfyrddin gynyddu bron 3% y flwyddyn mae'n anochel y bydd rhaid i ni wario mwy ar y maes gwasanaeth hwn yn y tymor canolig. Mae gwaith a noddir gan Lywodraeth Cymru yn dangos y byddai angen i Gyllid Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn y maes gwasanaeth hwn gynyddu 4% mewn gwirionedd, gyda'r pwysau ar ofal cymdeithasol yn codi 4.1% y flwyddyn dros y 15 mlynedd nesaf oherwydd cyflyrau iechyd cronig a chymhleth.

Fodd bynnag, nod ein Strategaeth Pobl Hŷn, a lansiwyd yn 2015, oedd trawsnewid gwasanaethau trwy ddatblygu darpariaeth gymunedol a thrwy newid mewn diwylliant sydd yn cydnabod bod pennu gofal gormodol i bobl yn eu gwneud yn fwy bregus ac yn peri eu bod yn colli eu hannibyniaeth. O ganlyniad, mae ein gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig bellach wedi llwyddo o fewn ei gyllideb ddyranedig am y drydedd flwyddyn yn olynol, sydd yn groes i'r holl dueddiadau cenedlaethol.

Un ffactor pwysig a gyfrannodd at reoli adnoddau'n well oedd gweithredu ein fframwaith comisiynu ar gyfer gofal cartref. Rhoddodd Sir Gaerfyrddin fframwaith ar waith ar gyfer darparwyr annibynnol sydd yn sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ansawdd yn hytrach na chost, sy'n monitro hyd galwadau'r darparwyr yn electronig ac sy'n galluogi'r darparwyr i ddefnyddio'r oriau mewn modd mwy hyblyg er mwyn cael y canlyniadau y mae unigolion yn eu dymuno. Mae'r fframwaith hwn wedi ein rhoi ymhlith y rhai mwyaf blaengar yng Nghymru ac o ganlyniad rydym wedi gweithio gyda'r corff rheoleiddio cenedlaethol (Arolygiaeth Gofal Cymru) i gynnal gweithdai cenedlaethol i gynorthwyo awdurdodau eraill i wella yn y maes heriol hwn. Y llynedd bu i ni gadarnhau'r ddarpariaeth gofal cartref fewnol drwy fuddsoddi yn ein gwasanaeth mewnol. Dros y flwyddyn nesaf disgwyliwn weld cynnydd yng nghyfran y gofal cartref a ddarperir gan ein gwasanaeth mewnol. Roeddem wedi parhau i weithio'n agos ac yn effeithiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrth ddatblygu amrywiaeth o fentrau i gefnogi pobl yn eu cartrefi. Yn gyffredinol, rydym mewn sefyllfa dda i ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn hefyd yn cynyddu ymhellach y cyflenwad o Ofal Ychwanegol drwy'r datblygiad yn Llynnoedd Delta, gan adeiladu ar lwyddiant y datblygiadau Gofal Ychwanegol yn Rhydaman a Chaerfyrddin. Rydym yn cadw ein darpariaeth breswyl fewnol bresennol ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gadarnhau pa fuddsoddiad cyfalaf fydd ei angen i wella'r amgylcheddau ffisegol er mwyn diwallu anghenion y dyfodol.

Mae ein tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth, Dewis Sir Gâr, yn darparu gwasanaeth 24 awr ar rif 0300 333 2222, ac mae'r penderfyniad i greu gwasanaeth gwaith cymdeithasol pwrpasol y tu allan i'r oriau arferol yn galluogi pobl i gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Mae lansio gwasanaethau'r Llinell Gofal fel cwmni masnachu awdurdod lleol yn darparu cyfle i fod yn arloesol mewn gofal trwy gymorth technoleg ac yn dangos ein dyhead i arloesi wrth wella safon gofal ein pobl. Gan fod 85% o'r staff yn y maes hwn yn ddwyieithog, rydym bellach yn gallu cyflawni ein strategaeth 'mwy na geiriau' gan ddarparu cynnig gweithredol i bobl ledled Cymru yn y maes sensitif hwn.

Mae Diogelu Oedolion yn flaenoriaeth a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi mewn strwythur newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn i wella'r amserau ymateb a sicrhau bod gennym y gallu i atal pobl agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Mae hon wedi bod yn rhaglen lwyddiannus o newid, a chyda gwelliant yn yr amserau ymateb o 92.13% ar gyfer ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblheir mewn 7 diwrnod, mae hynny'n ein galluogi i fod yn hyderus bod y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn fwy diogel nag erioed. Rydym wedi arwain ar nifer o fentrau rhanbarthol mewn perthynas â diogelu megis dogfen drothwy a sefydlu cysondeb o ran ymarfer sy'n ymwneud â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Rydym yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac mae'r rhaglen hon bellach yn y cam gweithredu. Rydym yn ailfodelu ein gwasanaethau dydd anabledd dysgu, yn adolygu ein gwasanaeth anabledd ac yn datblygu ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae adolygu pecynnau gofal mewn modd amserol ar gyfer y cleientiaid hyn

wedi bod yn flaenoriaeth ac mae cydymffurfiaeth o ran cwblhau adolygiadau bron yn 100% ar gyfer y grwpiau hyn o gleientiaid sy'n agored i niwed.

Mae gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr wedi bod yn flaenoriaeth eleni ac mae Swyddog Gwybodaeth ac Asesu Gofalwyr a hyrwyddwr gofalwyr wedi cael eu penodi ym mhob un o'r timau gwaith cymdeithasol.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes tai i ddatblygu amrywiaeth o ddewisiadau llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Wrth weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rydym yn datblygu atebion creadigol i ddiwallu anghenion unigol. Un enghraifft o hyn yw hyfforddi grŵp o unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i redeg hanner marathon, a'r nod cyffredinol yw gwella eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd mwy rhanbarthol o weithio, megis cyfuno cyllidebau tymor hir a sefydlu comisiynu ar y cyd.

## Tai a Diogelu'r Cyhoedd:

Mae un o bob deg person yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tŷ cyngor. Rydym yn falch o'r ffaith ein bod wedi gallu buddsoddi yn y cartrefi hyn dros lawer o flynyddoedd fel eu bod yn rhagori ar y Safon Genedlaethol ar gyfer Tai. Mae hyn wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ac mae dros £10 miliwn wedi cael ei wario ar gynnal tai sy'n eiddo i'r Cyngor, er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da ac yn ddiogel.

Bydd ein Hastudiaeth Effaith ar Iechyd hefyd yn cael ei chyhoeddi'n fuan ac mae'n dangos yr effaith sylweddol y mae ein buddsoddiad wedi ei chael ar wella iechyd a llesiant pobl a budd cost hyn i'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r buddsoddiad hirdymor hwn wedi rhoi'r cyfle i ni yn awr fuddsoddi mewn cynyddu ein stoc dai, a fydd yn galluogi mwy o bobl i fyw mewn cartrefi diogel a fforddiadwy sydd o safon dda. Bydd hyn yn galluogi ein strategaeth tai fforddiadwy i fod yn uchelgeisiol ac yn darparu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi rhagori ar y targed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwyf yn falch o'r ffaith ein bod wedi bod yn prynu tai o'r farchnad agored yn ôl i'r sector cyhoeddus ar gyfradd o fwy nag un bob wythnos. Mae mwy na 400 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu'n barod.

Mae'r cynlluniau i ddechrau adeiladu tai unwaith eto bellach yn dod yn eu blaenau'n dda ar nifer o safleoedd posibl. Erbyn hyn mae cwmni tai wedi'i sefydlu a fydd yn datblygu ymhellach opsiynau newydd i brynu, yn ogystal â rhentu. Rydym hefyd wedi bod yn ystyried arloesi o ran sut yr ydym yn mynd ati i ddylunio, gweithgynhyrchu ac adeiladu tai newydd, ar y cyd â phartneriaid allweddol.

Mae newidiadau i'r ffordd y mae budd-daliadau lles yn cael eu gweinyddu a'u darparu hefyd wedi bod yn ganolog i'n ffordd o feddwl, ac mae cynlluniau ar waith i liniaru'r effaith ar ein tenantiaid. Bydd ein Cynllun Gweithredu Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod cymorth ar gael pan fo'i angen, ond bydd hefyd yn annog rhai tenantiaid i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros reoli eu cyfrifon a cheisio cyfleoedd o ran hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn olaf, mae llawer o'n gwasanaethau yn gymharol anweledig ond maent wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl. Mae enghreifftiau yn cynnwys nifer o gynlluniau Synnwyr Arian a chamfanteisio ariannol i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, sy'n cael eu cynnal gan yr Is-adran Safonau Masnach, ein Gwasanaeth Hylendid Bwyd a ddarperir gan ein tîm Bwyd, Diogelwch ac Iechyd, a'r ffordd ragweithiol rydym yn darparu gwasanaethau digartrefedd yn y sir.

## Hamdden a Threftadaeth

Bedair blynedd yn ôl roedd cynlluniau i fwrw ati i lansio hamdden fel ymddiriedolaeth hyd braich. Ers penderfynu peidio â dilyn y trywydd hwnnw, mae'r gwasanaeth wedi mynd o nerth i nerth.

Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan benderfyniadau buddsoddi cyfalaf allweddol, a bu i'r weinyddiaeth hon ddarparu buddsoddiad cyfalaf ar raddfa nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen mewn hamdden, chwaraeon a diwylliant. Mae buddsoddiad o bron miliwn o bunnoedd wedi cael ei wneud mewn adnewyddu ein campfeydd, ac mae nifer y defnyddwyr yn dal i dyfu ac mae incwm yn cynyddu wrth inni gynnig y profiad gorau yn y sir. Gyda'r oriau agor estynedig a'r aelodaeth teulu sydd bellach ar gael i blant 11 oed a throsodd, mae'n costio llai na £1.50 y dydd i deulu gael mynediad diderfyn i byllau nofio, campfeydd a dosbarthiadau. Mae hyn rhoi gwerth gwych am arian - ac mae'n cyfrannu'n helaeth at sicrhau bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn iach ac yn actif. Mae'r lefelau boddhad yn uwch nag erioed ac o ganlyniad mae gennym fwy na 1000 o aelodau ychwanegol sy'n talu. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobrau actif cenedlaethol y DU.

Mae angen gwneud gwaith mewn cyfleusterau yn Llanelli a byddwn yn buddsoddi mwy nag £20 miliwn mewn canolfan hamdden newydd ar safle Llynnoedd Delta. Mae'r gwaith yn parhau i ddod o hyd i bartner datblygu i gyflawni'r cynllun uchelgeisiol hwn fel rhan o'r datblygiad Pentref Llesiant ehangach yn Llynnoedd Delta. Y bwriad yw y bydd y ganolfan hamdden yn gartref i unig ganolfan ddeifio bwrpasol Cymru, gan gysylltu'r arfordir â'r dref a rhoi i bobl Llanelli y cyfleusterau hamdden gorau yn y sir. Hefyd bydd £1 filiwn yn cael ei fuddsoddi yng nghae pob tywydd a chyfleusterau parcio Canolfan Hamdden Rhydaman yn ddiweddarach eleni. Mae'r broses cynllunio rhagarweiniol eisoes ar waith.

Mae gennym strategaeth feicio uchelgeisiol a gefnogir gan fuddsoddiad gwirioneddol mewn seilwaith, datblygiad a digwyddiadau. Mae felodrom Tref Caerfyrddin wedi cael ei adnewyddu'n llawn i safon cystadlu gan gynnig lleoliad yn y dref ar gyfer cystadlaethau cenedlaethol nad ydym wedi eu gweld ers dros 50 mlynedd. Yn ogystal mae'r gwaith wedi cychwyn ar y gylchffordd feicio gaeedig ar gyrion Parc Gwledig Pen-bre, lle gwneir buddsoddiad o hanner miliwn o bunnoedd. Yn yr un modd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar ben gorllewinol y Llwybr Beicio newydd yn Nyffryn Tywi, a bydd hyn oll yn gatalydd i droi Sir Gaerfyrddin yn brif gyrchfan beicio Cymru. Ar 2 Medi eleni, bydd y Cyngor yn cynnal y 'Grand Depart' ar gyfer ras feicio nodedig Tour of Britain, gan ddod â sylw mawr i'r sir a'i rhinweddau godidog.

Mae buddsoddiad ar y gweill ers meitin ym Mharc Gwledig Pen-bre ac mae bloc amwynderau newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer y safle carafanio a gwersylla, lle mae modd archebu ar-lein erbyn hyn. Mae'r gwaith o ddylunio'r bwyty newydd yn mynd rhagddo a bydd y lle'n barod ar gyfer 2019. Hefyd bydd cyfleusterau Wi-fi a system fariwns newydd i wella llif y traffig ar gyfer y parc yn cael eu rhoi ar waith yn 2018.

Daethom hefyd i gasgliad terfynol gyda'r sector preifat ynghylch datblygu Harbwr Porth Tywyn eleni. Ers 1 Ebrill 2018 mae Burry Port Marina Ltd (rhan o'r Marine Group) wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoli a chynnal a chadw'r harbwr, ac mae ymrwymiad wedi'i wneud i fuddsoddi mewn cyfleusterau ail-lenwi â thanwydd, swyddfa harbwr newydd a chaffi, ynghyd ag ateb carthu cynaliadwy ar gyfer yr harbwr.

Roeddwn i mor falch o gael cefnogi lansiad Gwobrau Diwylliant Sir Gaerfyrddin, a ddenodd fwy na 150 o enwebiadau gan aelodau o'r cyhoedd ar gyfer gwobrau ar draws 8 categori o ddiwylliant, a phen llanw hyn oll oedd y dathliad rhagoriaeth yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli ar 6 Ebrill 2018.

Mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'n gwasanaeth llyfrgelloedd nawr nag erioed ac mae llwybrau ein gwasanaeth teithiol wedi cael eu profi, eu hadolygu, a'u sefydlu'n llawn i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n hardaloedd gwledig. Bellach mae ein llyfrgelloedd yn bodloni pob un o'r 18 o hawliau craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn llawn, ac o ran yr holl ddangosyddion ansawdd, mae Sir Gaerfyrddin wedi cydymffurfio â 6 yn llawn ac 1 yn rhannol. Gwnaed 1,142,357 o ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin a 273,173 o rith-ymweliadau – mae hyn yn anhygoel. Roeddwn yn falch o weld mai llyfrgell Llanelli yw'r un sy'n benthyg y 3ydd nifer uchaf o lyfrau o blith holl lyfrgelloedd y Deyrnas Unedig. Mae'r 'fenter Makerspace' newydd, a gafodd ei lansio yn Llyfrgell Rhydaman, gan weithio mewn partneriaeth â Chyfuno, Treftadaeth Ddisylw, Cymunedau yn Gyntaf, Caffi Atgyweirio a gweithwyr ieuenctid ym maes y Cyfryngau a Ffilmiau, wedi cael canmoliaeth a chydnabyddiaeth genedlaethol am ymgysylltu arloesol.

Erbyn hyn mae'r aelodau wedi cytuno ar strategaeth amgueddfeydd newydd, a gaiff ei chefnogi gan gyllid cyfalaf i fuddsoddi yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili (£1m) a Pharc Howard yn Llanelli (£500k), ynghyd â £500k pellach ar gyfer storfa Casgliadau Amgueddfeydd newydd. Sicrhawyd buddsoddiad allanol sylweddol i adnewyddu a gwella Amgueddfa Cyflymder Pentywyn, a'r bwriad yw dechrau ar y gwaith yno ddiwedd 2018. Cafwyd arian i ddatblygu tiroedd Amgueddfa'r Sir yn Abergwili (a fydd yn darparu porth i'r llwybr beicio newydd yn Nyffryn Tywi) yn 2018, a gwnaed y trefniadau terfynol o ran y les gydag Ymddiriedolaeth Porth Tywi fel y gellir cychwyn ar y cynllun cyffrous hwn cyn gynted â phosibl.

Penodwyd y prif gontractwr i ddechrau'r gwaith ar yr Archifdy newydd yng nghefn Llyfrgell Caerfyrddin yn haf 2018, a bydd y cyfnod adeiladu'n para 12 mis. Bydd hyn yn darparu cartref o'r radd flaenaf i ddogfennau treftadaeth sy'n adlewyrchu hanes rhyfeddol y sir a mynediad i'r cyhoedd i'w gweld.

Dyma fuddsoddiad yn ein treftadaeth ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, a bydd yn darparu ffenest i hanes ein sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Hyrwyddo'r Gymraeg



*Parêd Dewi Sant, Wythnos Gymreig*

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn ein sir wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg wedi gosod trywydd clir. Gyda chefnogaeth ein partneriaid ar Fforwm Strategol y Gymraeg, rydym wedi medru datblygu nifer o brosiectau megis y llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog yn Sir Gâr' sy'n esbonio manteision dwyieithrwydd i rieni a gofalwyr ein plant a phobl ifanc. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau hefyd wrth i ni weld datblygiad pellach yn 'ardaloedd blaenoriaeth' y sir; ardaloedd a brofodd y newid ieithyddol mwyaf yn ôl Cyfrifiad 2011. Eto gyda chefnogaeth ein partneriaid, rydym yn medru gwneud gwaith dwys, sydd wedi ei deilwra at anghenion lleol iawn, gan geisio dylanwadu yn bositif ar ddefnydd a datblygiad y Gymraeg.

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg ar y Cyngor ym mis Mawrth 2016 ac rydym bellach wedi bod yn gweithredu'r fframwaith newydd am ddwy flynedd. Mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'r Safonau ac maent yn parhau i wella o ran cynllunio gweithlu a gwasanaethau. Rydym yn awyddus i annog cwsmeriaid o bob cwr o'r sir i gysylltu â ni fel Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg ac i fod yn falch o'r sgiliau sydd ganddynt. Yn yr un modd, rwy'n annog ein dysgwyr i gysylltu â ni yn Gymraeg – mae'n gyfle perffaith iddynt ymarfer.

Yn ystod y flwyddyn, mae perthynas waith arbennig wedi datblygu gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn ffodus i fod yn ddarparwr lleol ond hefyd rydym wedi medru cynnig nifer o gyfleoedd i'n gweithlu i ddysgu a gloywi eu sgiliau. Yn wir, eleni gwelwyd y nifer uchaf o staff yn cofrestru ar gyrsiau yn y sir, ac edrychwn ymlaen at barhau gyda'r gwaith hynny.

# Lluoedd Arfog



*Y Cerddor Tolhurst o Fand Adran Tywysog Cymru*

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld nifer o ddatblygiadau o ran gwireddu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Mae'r Cyfamod yn gyfle i hyrwyddo cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n

gweithio ac yn byw yn Sir Gâr a chydnabod a chofio'r aberth a wnaed. Mewn partneriaeth â chynghorau Ceredigion a Phenfro, rydym wedi denu cyllid o'r Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn penodi Swyddog Rhanbarthol a fydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned hon ac yn sicrhau ymgysylltiad â hwy o ran gwasanaethau a heriau a wynebir. Denwyd cyllid ychwanegol hefyd er mwyn sefydlu hybiau gwybodaeth a chyngor, ac edrychaf ymlaen at gael adrodd am y cynnydd ynghylch y prosiect hwn y flwyddyn nesaf.

Dymunaf ddiolch yn y fan hon i fudiadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau a chymorth arbenigol i helpu personél sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a phersonél sydd wedi bod yn gwasanaethu, a'u teuluoedd, mae eich cyfraniad yn werthfawr iawn.